Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ASESIAD EFFAITH, DOGFENNU

# Gostyngiadau yng nghyllideb addysg cyn-16 2024 i 2025 a chyfuniad grant: asesiad o'r effaith ar hawliau plant

Fe wnaethom asesu effeithiau gostyngiadau i'r gyllideb addysg cyn-16 a chyfuno grantiau o ran cyllid addysg cyn-16 ar gyfer hawliau plant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Ebrill 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Amcanion y polisi

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

4.Cyngor i'r Gweinidog a'i benderfyniad

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

6. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

7. Monitro ac adolygu

Troednodiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Amcanion y polisi

## Effaith pa benderfyniad rydych chi'n ei hasesu?

Penderfyniad i leihau cyllid addysg cyn 16 oed £13.9m, 2.1% o gyllidebau addysg cyn-16; a phenderfyniad i uno grantiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â chyllid addysg cyn-16.

# 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

## Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi?

Gall amcan eich polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses o asesu effaith drwy sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[Troednodyn 1] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.
- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[Troednodyn]

Darperir cyllid craidd ar gyfer cyllidebau ysgolion drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Yn y broses ar gyfer cyllideb ddrafft 2024 i 2025, rydym wedi gweithredu i ddiogelu'r Setliad Llywodraeth Leol ar y lefel ddangosol a nodwyd yn y broses

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

pennu cyllideb flaenorol. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol ddiogelu a blaenoriaethu cyllid ysgolion.

Er hynny, o gofio maint y pwysau sy'n ein hwynebu, ni fu modd osgoi'r holl effeithiau ar blant a phobl ifanc. Rydym wedi gweithredu i leihau'r effeithiau hyn cyn belled â phosibl o fewn y cyllid sydd ar gael.  Dyma pam rydym wedi sicrhau yr un lefel o gyllid ag yn 2023 i 2024 ar gyfer grantiau yr ydym yn eu darparu i awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion ymhellach. Mae'r gostyngiad o £13.9m wedi'i wneud yn erbyn cyllid y tu allan i'r hyn sydd wedi'i gyfeirio at gefnogi ysgolion.

Bydd cyfuno'r grant yn golygu newid mewn mecanwaith ariannu tra bod lefelau'r cyllid hwnnw wedi'u cynnal.

Mae effeithiau negyddol gostyngiadau yn y gyllideb wedi cael eu lliniaru drwy ddiogelu cyllid craidd ysgolion a diogelu cyllid grant sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ymhellach, felly ni theimlir bod ymgysylltu yn angenrheidiol mewn perthynas â chanlyniadau'r penderfyniad hwn.

Ni theimlwyd bod ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn briodol mewn perthynas â'r penderfyniad i uno'r grantiau addysg cyn-16. Mae tystiolaeth o adolygiadau a gynhaliwyd ac a gomisiynwyd, gan gynnwys argymhellion yr Adolygiad Cyllid Ysgolion, wedi llywio'r penderfyniad hwn. Mae tystiolaeth o adolygiadau a gynhaliwyd ac a gomisiynwyd, gan gynnwys argymhellion yr Adolygiad Cyllid Ysgolion, wedi llywio'r penderfyniad hwn. Mae tystiolaeth glir bod angen cyllid ysgolion symlach a thryloyw yng Nghymru ac mae'r dull grant newydd hwn yn gam tuag at hyn.

## 3. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith

### Gan ddefnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o’i chael ar blant a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr **erthyglau** i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

## Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol

### Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn)

Mae'n rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad neu weithred sy'n effeithio ar blant.

Mae'r amgylchiadau ariannol heriol sy'n deillio o'r argyfwng costau byw wedi achosi lefel o ansefydlogrwydd ariannol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol a allai effeithio ar ein dysgwyr. Bydd diogelu'r cyllid sy'n canolbwyntio ar gefnogi ein hysgolion yn helpu i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu a sicrhau y gall plant barhau â'u dysgu.

### Erthygl 28 (hawl i addysg)

Mae gan blant yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas a hawliau plant. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael addysg ac mae dyletswydd statudol yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu. Mae diogelu cyllid ysgolion yn sicrhau y gellir cyflawni'r ddyletswydd hon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ystyriwch a oes unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 18 oed.

Amherthnasol.

## 4.Cyngor i'r Gweinidog a'i benderfyniad

### Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cyfrannu at eich cyngor i Weinidogion?

- Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.
- Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio i'ch cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.

Mae dadansoddiad o'r effeithiau wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau, a dyna pam rydym yn diogelu cyllid ysgolion wrth gymhwyso toriadau cyllidebol angenrheidiol fel rhan o'r broses o lunio cyllideb ddrafft 2024 i 2025.

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei gynnwys yn y cyngor Gweinidogol a gyflwynwyd.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

### Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymru.

Anfonwch adrannau 1 ac 8 o’ch Asesiad Effaith Integredig a’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i’w cyhoeddi.

Rhaid anfon *pob* Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi eu cwblhau hefyd i flwch post **CRIA@llyw.cymru**.

# 6. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

## Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynglŷn â’ch cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Amherthnasol.

# 7. Monitro ac adolygu

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth, ni fydd dibynnu ar yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn ddigon ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddaru’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant i ystyried sut gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu’r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn o'u Hasesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei hailenwi'n adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diweddaru'r dystiolaeth o'r effaith. Dylid cyflwyno'r Asesiad o'r Effaith a adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, arferion neu ganllawiau. Dylid cyhoeddi'r Asesiad a adolygwyd hwn hefyd.

## Cofiwch amlinellu pa drefniadau monitro ac adolygu y byddwch yn eu sefydlu ar gyfer adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn.

Bydd yn cael ei fonitro i adolygu'r effaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf wrth i'r newidiadau gael eu gweithredu.

## Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r dull o'i roi ar waith?

Nid ar ôl yr adolygiad cychwynnol hwn.

# Troednodiadau

[1] Efallai y byddwch, er enghraifft, yn ystyried sut y byddai eich polisi yn cael effeithiau gwahanol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc:

- y blynyddoedd cynnar
- cynradd
- uwchradd
- oedolion ifanc
- plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi
- plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- mudwyr
- ceiswyr lloches
- ffoaduriaid
- siaradwyr Cymraeg
- plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- plant LHDTC+

Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac na fydd pawb o fewn y carfanau hyn yn rhannu’r un profiadau.

[1] Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gostyngiadau-yng-nghyllideb-addysg-cyn-16-2024-i-2025-chyfuniad-grant-asesiad-or-effaith-ar-hawliau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.